CYFLE CYFARTAL

| | |
|---|---|
| Dyddiad | 14 Tachwedd 2002 |
| Teitl | Mynediad I’r anabl I adeiladau ysgolion. |
| Amser | 9.00am |
| Lleoliad | Ystafell Pwyllgora 3&4 |

Jane Davidson
Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Edwina Hart AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Mehefin 2002

Annwyl Edwina

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mai mewn perthynas â mynediad i’r anabl i adeiladau ysgolion.

Mae Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 yn diwygio Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DGA) i newid y gofynion sydd ar awdurdodau addysg lleol ac ysgolion. Y newid sylweddol cyntaf oedd gorfodi dyletswydd gynllunio ar bob awdurdod addysg lleol ac ysgolion o fis Medi 2002 ymlaen. O’r dyddiad hwnnw rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion gynllunio er mwyn sicrhau bod modd i bobl anabl fynd i mewn i’w hadeiladau. Caniatier digon o amser iddynt wneud hyn ac yr ydym ar hyn o bryd yn paratoi canllawiau ar gyfer yr awdurdodau.

Wrth gwrs bydd gwaith adeiladu er mwyn gwella mynediad a bodloni’r gofynion statudol hyn yn golyygu y bydd angen talu costau cyfalaf. Bydd awdurdodau lleol yn gwneud asesiad o’r gofynion ychwanegol fel rhan o’r arolygon o gyflwr adeiladau a’r cynlluniau rheoli asedau a fydd yn darparu gwybodaeth ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol ar y lefel o fuddsoddi sydd ei angen i fodloni’n hymrwymiad yn Gwell Cymru i sicrhau bod ysgolion mewn cyflwr da erbyn 2010.

Mae defnyddio ysgolion fel gorsafoedd pleidleisio yn gyffredin iawn mewn nifer o ardaloedd a gwneir y

penderfyniad ynghylch lleoliad gorsafoedd pleidleisio yn lleol. Os yw ysgolion yn cynnig eu hadeiladau at ddibenion y tu hwnt i faes addysg mae gofynion y DGA yn berthnasol iddynt a rhaid iddynt fod o fewn cyrraedd pobl anabl. Bydd gofynion y Ddeddf AAA ac Anabledd y cynyddu nifer yr ysgolion sy’n gallu cynnig eu hadeiladau at ddibenion o’r fath.

Mae’n ofynnol i ysgolion ddarparu isafswm o sesiynau ym mhob blwyddyn academaidd. Nid yw cau ysgolion at ddibenion etholiadau yn effeithio ar hyn a bydd rhaid adennill unrhyw amser a gollir. Er mwyn hwyluso hyn, rhaid gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch defnyddio ysgolion yn lleol gan ymgynghori â’r Awdurdod Addysg Lleol a’r ysgol ei hun.

Yn gywir

Jane Davidson AC
Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes